Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Trefeurig MYM
# Neuadd Y Penrhyn
# Penrhyn-coch
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 3EH

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/04/2013**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Trefeurig yn gylch cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i leoli yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch, Ceredigion. Daw bron pob un plentyn sy'n mynychu'r cylch o'r pentref a'r ardal gyfagos. Cydnabyddir nad yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais gymdeithasol neu economaidd.

Mae'r cylch wedi ei leoli yn y neuadd ers 1973 ac yn rhannu'r adeilad gydag asiantaethau eraill. Mae rhan o'r maes parcio wedi ei addasu ar gyfer defnyddio teganau mawr. Mae'r cylch ar agor rhwng 9.05yb a hanner dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Dywed y cylch fod tua hanner y plant yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd ac mae'r plant yn cynrychioli'r ystod lawn o alluoedd. Nid oes un plentyn yn y grŵp cyfredol wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Daw ychydig o blant o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r cylch wedi'i gofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am uchafswm o 26 o blant ac yn derbyn plant o ddwy flwydd a hanner oed. Ar hyn o bryd, mae 20 o blant yn mynychu'r cylch ac mae 12 ohonynt yn dair blwydd oed.

Mae'r arweinydd yn ei swydd ers 2004. Mae tair cymhorthydd yn ei chefnogi hi yn amser llawn. Mae'r gan yr holl staff gymwysterau addas. Mae pwyllgor rheoli yn goruchwylio gwaith y cylch. Arolygwyd y cylch ddiwethaf gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn 2011. Cafodd y cylch ei arolygu gan Estyn yn 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y cylch yn dda oherwydd:

- mae bron pob un plentyn yn dangos cynnydd ac yn cyflawni'n dda ymhob maes dysgu;
- mae'r holl blant yn cael eu cefnogi'n dda ac yn elwa o gwricwlwm sy'n eang, cytbwys a diddorol;
- yr arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn;
- y berthynas briodol sydd rhwng yr oedolion a'r plant; ac
- mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol ac yn cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y cylch.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd bod:

- y staff yn darparu cyfeiriad clir i waith y cylch;
- y newidiadau a datblygiadau dros amser yn gofnod da o wella er lles y plant;
- yr hunanarfarnu yn effeithiol ac yn cyfatebu'n briodol gyda thargedau clir y cynllun gwella pwrpasol;
- gan yr holl staff agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant;
- y llinellau cymorth yn dda ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd a synhwyrol; ac
- mae'r pwyllgor rheoli yn weithredol a chefnogol iawn ac yn cynllunio'n drwyadl ar gyfer y dyfodol.

## Argymhellion

A1 herio plant unigol yn unol â'u galluoedd i hybu eu hannibyniaeth

A2 sicrhau bod cyflwyniadau a storïau yn cael eu hamseru'n effeithiol i gynnal diddordeb y plant

A3 cwblhau asesiadau cyson sy'n arwain yn uniongyrchol at y cam nesaf yn nysgu'r plant

A4 datblygu a chyfoethogi yr adnoddau a'r profiadau yn yr ardal allanol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y cylch yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y cylch.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un plentyn yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da ymhob maes dysgu wrth ystyried eu mannau cychwyn. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau grwpiau gwahanol o blant yn y cylch.

Mae bron pob un plentyn yn gwneud cynnydd positif yn eu datblygiad o'u medrau llythrennedd yn yr iaith Gymraeg. Nodwedd dda o'u gallu cynyddol yw'r ffaith iddynt ymateb gydag ychydig iawn o anogaeth i lythrennau a rhifau. Gwelir enghreifftiau da o hyn wrth i'r mwyafrif o blant drafod llythyren gyntaf eu henwau ac enwau eraill yn hyderus ac adnabod rhifau hyd at bump.

Mae gan llawer o'r plant fedrau gwrando da. Adlewyrchir hyn wrth iddynt eistedd a gwrando'n astud ar stori, wrth iddynt ystyried eu byrbrydau a thrafod y tywydd. Mae ychydig iawn o blant yn aflonydd yn ystod cyflwyniadau a storïau. Mae bron pob un plentyn yn mwynhau clywed stori ac mae llawer o blant yn awyddus i gyfrannu'n bwrpasol i'r hyn a ddarllenir iddynt.

Mae bron pob un plentyn yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda drwy ddefnydd ymarferol o rif, drwy ddefnyddio geirfa fathemategol fel 'llai na' a 'fwy na', 'hir' a 'byr' a thrwy ddefnyddio siapiau. Mae bron pob un plentyn yn medru grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn gywir, yn enwedig yn ôl lliw. Maent yn cyfrif yn hyderus gyda'i gilydd a gydag oedolion hyd at 20.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ateb cwestiynau yn frwdfrydig ac yn ymateb yn synhwyrol i drafodaethau grŵp. Mae'r mwyafrif o blant yn dal llyfrau yn briodol ac yn astudio'r print a'r lluniau â diddordeb. Maent yn adnabod prif gymeriadau mewn stori ac yn trafod cynnwys y stori yn ddeallus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall pwrpas ysgrifennu drwy dasgau ymarferol wrth iddynt beintio, marcio a chreu patrymau â phensiliau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio offer electronig yn effeithiol. Maent yn defnyddio cyfrifiadur yn hyderus trwy reoli'r cyfarpar priodol. Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn dda wrth iddynt reoli beiciau'n gelfydd yn yr awyr agored.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob un plentyn ddealltwriaeth dda, yn unol â'u hoedran, o sut y gallant gadw'n iach. Gwyddant, er enghraifft, pryd mae angen iddynt olchi eu dwylo gan wneud hyn heb angen fawr o anogaeth. Mae gan bron pob un plentyn ddealltwriaeth gadarn bod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau. Mae bron pob un plentyn yn dangos diddordeb pwrpasol yn y gweithgareddau a gynllunnir ar eu cyfer, tu fewn y dosbarth ac yn yr ardal gorfforol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser.

Mae bron pob un plentyn yn uniaethu â'i gilydd, oedolion ac ymwelwyr yn dda. Maent yn gwrtais ac yn barod iawn i rannu adnoddau. Maent yn cymryd eu tro yn ddeallus wrth iddynt wisgo'u cotiau i adael yr adeilad. Mae bron pob un plentyn yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gweithgareddau'r cylch trwy gynnig syniadau ystyriol. Mae bron pob un plentyn yn hapus ac maent yn teimlo eu bod yn derbyn gofal da sy'n rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynllunio yn diwallu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac yn cyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol a phresennol y plant. Mae cyfleoedd diddorol ar gael i bob plentyn i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Gosodir amser priodol yn wythnosol i'r arweinydd a'r staff drafod y cwricwlwm a gweithgareddau'r themâu. Felly, mae'r cwricwlwm hyblyg yn briodol ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant.

Mae gweithgareddau a thasgau penodol wedi'u cynllunio'n dda ac mae gan y plant ryddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun. Fodd bynnag, mae ymyrraeth yr oedolion yn gwneud y rhan fwyaf o blant yn orddibynnol ar arweiniad oedolyn, sy'n cyfyngu datblygiad eu medrau annibynnol. Darperir gweithgareddau da i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad corfforol a datblygiad creadigol. Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol â'r plant yn y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth y plant yn dda. Mae'r staff brwdfrydig yn gyson gyfeirio'r plant tuag at ddefnyddio cyfarpar technolegol fel y cyfrifiadur, clustffonau, teganau symudol a chamerâu. Mae gan blant lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau diddorol fel chwarae rôl yn y siop, arbrofi gyda dŵr a thywod a thrafod y tywydd.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Darperir cyfleoedd da hefyd i'r plant ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, er enghraifft, drwy astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae gweithgareddau tebyg yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach a datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.

Yn y gorffennol, mae'r cylch wedi tyfu tatws a llysiau tebyg mewn potiau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes cyfleoedd da ar gael i'r plant i dyfu planhigion ar safle'r neuadd. Mae cyfleoedd da ar gael i bob plentyn ailgylchu bwyd, papur a photeli plastig sy'n wastraff. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth am gynaliadwyedd yn effeithiol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda am ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas positif rhwng yr holl staff a'r plant. Mae rôl

weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn herio'r plant yn unol â'u galluoedd ar bob achlysur.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r staff yn ymyrryd yn ormodol ac nid ydynt yn caniatáu i'r plant ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn modelu iaith yn dda iawn i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Mae'r staff yn annog y plant i werthuso'n synhwyrol wrth iddynt drafod stori a chwarae rôl. Mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol sy'n sicrhau'n llwyddiannus fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r cyflwyniadau i dasgau ac elfennau o storïau yn cael eu hamseru'n effeithiol i gynnal diddordeb y plant.

Mae gweithdrefnau asesu priodol yn bodoli. Mae'r broses yn newydd ac mae'r cofnodion o gyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n ddigonol. Nid yw'r asesiadau'n arwain, gyda digon o fanylder, at dargedau plant unigol a dangos beth yw'r cam nesaf iddynt yn eu haddysg. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r cylch yn sicrhau iechyd a lles y plant yn dda. Mae ymwelwyr ac ymweliadau yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae'r cylch yn ymweld â'r gymuned yn gyson trwy deithiau i lan yr afon, lan y môr, ffermydd lleol a'r pentref. Mae'r defnydd o'r pentref a'r ardal leol yn sicrhau cyfleoedd awyr agored pwrpasol ac yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda gan y cylch ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn cael eu meithrin yn synhwyrol gan y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro yn dda wrth fwyta tost a ffrwythau ac yfed diod o gwmpas y bwrdd bwyta.

Mae trefniadau'r cylch ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r cylch yn ddiogel, mae'r drysau ar gau a dim ond aelod o staff sy'n eu hagor. Nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i'r plant gael eu casglu ac yn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi ac mae staff yn trafod y rhain gyda'r asiantaethau priodol. Yr arweinydd yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion arbennig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r cylch, drwy’r gweithgareddau dyddiol a’r agwedd a fabwysiedir gan y staff, yn hyrwyddo ethos positif. Mae’r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol, er bod diffyg ardal allanol cwbl addas yn cyfyngu rhywfaint ar hynny. Mae’r cylch yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy’n dileu unrhyw ffurf ar aflonyddwch neu ymddygiad gormesol.

Mae gan staff y cylch gymwysterau addas a phrofiad da ac mae’r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau. Mae’r cylch yn defnyddio’i adnoddau yn dda i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae’r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy’n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda. Mae’r adnoddau wedi eu rhannu’n effeithiol rhwng y gweithgareddau parhaus, gweithgareddau i gyfoethogi a’r tasgau ffocws.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r staff yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn llawn ac yn cydweithio’n dda fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel y Mudiad Meithrin a’r awdurdod lleol yn synhwyrol. Mae’r arfer hon yn sicrhau’r defnydd gorau o’u harbenigedd. Mae’r arweinydd, staff a’r pwyllgor rheoli yn rhannu gweledigaeth glir. Mae eu hymrwymiad i lwyddiant y cylch yn arwain at synnwyr effeithiol o bwrpas a chynllunio ysgogol ar gyfer y dyfodol.

Mae’r cynllun gwella’n nodi’n briodol beth sydd angen ei wneud er mwyn i’r cylch i wella. Mae’r cynllunio strategol yn cael effaith gadarnhaol trwy greu gwelliannau ac mae’r targedau yn cyfatebu’n briodol gyda’r sylwadau yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae’r strategaeth yn canolbwyntio’n dda ar anghenion plant ac mae’r cylch yn cyflawni hyn yn llwyddiannus ac ymarferol. Mae’r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy’n effeithio’n dda ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae’r pwyllgor rheoli yn arwain yn effeithiol ac yn rhoi ystyriaeth dda iawn i ddeddfwriaeth. Maent wedi ennill grantiau a pharatoi cynlluniau ar gyfer adeilad newydd ar dir yr ysgol. Mae ei systemau rheoli yn cwrdd â’r gofynion. Mae’r cylch wedi rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r cylch yn hunanarfarnu’n dda ac yn sicrhau cyfatebiaeth effeithiol rhwng yr hunanarfarniad a thargedau’r cynllun gwella. Mae’r targedau’n nodi’n briodol y meysydd i’w gwella ac yn eu gweithredu yn erbyn llinynnau amser a chyfrifoldebau pendant er lles y plant.

Mae'r targedau priodol yn cynnwys datblygu'r ardal allanol, cyflwyno medrau yn ystod tasgau ffocws, defnydd y plant o'r Gymraeg, datblygu medrau rhifedd y plant ac ehangu eu profiadau o dechnoleg gwybodaeth.  Rhoddwyd ystyriaeth addas i sylwadau pawb sy'n ymwneud â'r cylch wrth lunio'r cynlluniau gwella.

Mae'r agweddau sydd angen eu gwella yn cael eu targedu yn effeithiol yn erbyn meini prawf llwyddiant yn y cynlluniau hyn.  Maent yn cael blaenoriaeth briodol yn natblygiad y cylch gan y staff, yr awdurdod lleol, y Mudiad Meithrin a'r pwyllgor rheoli. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o gyfleoedd hyfforddi a phrofiadau dysgu proffesiynol.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae perthynas effeithiol rhwng y cylch a'r rhieni.  Mae ymatebion y rhieni yn yr holiaduron ac yn ystod trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r cylch.  Maent yn gwerthfawrogi'n fawr safonau'r gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael.  Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r staff.  Ceir llyfryn sy'n llawn gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n eu darparu â manylion perthnasol am y cylch.

Erbyn i'r plant adael y cylch, mae'r rhieni yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgolion lleol.  Mae'r cysylltiadau rhwng y cylch a'r ysgol bentref yn dda gydag ymweliadau cyson yn bodoli trwy'r flwyddyn.  O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd â gweithdrefnau'r ysgol a'r adeilad cyn iddynt ddechrau yno'n amser llawn.

Mae'r partneriaethau cymunedol yn dda iawn.  Mae'r gymuned, trwy arweiniad effeithiol y pwyllgor rheoli, wedi cyfrannu tuag at lwyddiant y cylch i gael adeilad newydd ar dir yr ysgol.  Mae'r cylch yn cymryd pob cyfle i ddefnyddio'r pentref a'r ardal gyfagos i ddarparu profiadau diddorol ar gyfer y plant.

Mae'r bartneriaeth â'r Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn dda ac yn gymorth i symud y cylch ymlaen.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac yn clustnodi arian ar gyfer yr anghenion pwysig fel adnoddau dynol a chyfarpar defnyddiol.  Mae gwaith cynllunio'r pwyllgor rheoli yn dda iawn.  Mae'r cylch yn defnyddio'r adeilad a'r ardal leol yn effeithiol gan ddarparu profiadau diddorol, sy'n cael eu cynllunio'n dda.

Mae'r pwyllgor rheoli a'r staff yn defnyddio asiantaethau cynorthwyol yn bwrpasol er lles y plant.  Er bod rhai agweddau ar yr  addysgu a'r asesu angen eu gwella, mae'r ddarpariaeth gyffredinol, brwdfrydedd yr arweinyddiaeth a safonau da y plant yn golygu bod y cylch yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Ymatebodd 17 o rieni a gofalwyr i’r holiaduron.

Mae pob un yn cytuno neu yn cytuno’n gryf:

- eu bod yn teimlo yn fodlon am y cylch yn gyffredinol;
- bod cymorth i’r plant i ymgartrefu'n dda;
- bod eu plant yn hoffi'r cylch;
- bod y cylch yn cael ei redeg yn dda;
- bod cymorth ychwanegol priodol ar gael os oes angen;
- bod eu plant yn gwneud cynnydd da;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd; a
- bod eu plant yn ddiogel.

Mae’r rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn teimlo:

- bod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol;
- eu bod nhw’n cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant;
- bod y plant yn ymddwyn yn dda;
- eu bod yn teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r cylch, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- eu bod yn deall trefn y cylch ar gyfer delio â chwynion; a
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

Mae’r ymatebion hyn yn cymharu’n ffafriol gyda chymariaethau meincnodol cenedlaethol.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae bron pob un plentyn yn hapus yn y cylch. Mae eu brwdfrydedd yn amlwg wrth iddynt gyrraedd a chwrdd â’u ffrindiau. Mae bron pob un ohonynt yn hunan hyderus wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi’n dda a bod ganddynt dasgau diddorol sydd wedi eu darparu ar eu cyfer.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |